# CYNGOR

## (*CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT*)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 2 Rhagfyr 2020**

| | |
|---|---|
| **Y Maer:** | **Councillor S.Jones** |
| **Y Dirprwy Faer** | **Councillor** |
| **Cynghorwyr:** | A.R.Aubrey, S.Bamsey, D.Cawsey, H.C.Clarke, C.Clement-Williams, M.Crowley, A.P.H.Davies, N.J.E.Davies, O.S.Davies, R.Davies, C.Edwards, C.Galsworthy, W.F.Griffiths, J.Hale, S.Harris, M.Harvey, N.T.Hunt, S.K.Hunt, J.Hurley, H.N.James, C.J.Jones, D.Jones, H.Jones, J.Jones, L.Jones, R.G.Jones, D.Keogh, S.A.Knoyle, E.V.Latham, A.Llewelyn, A.McGrath, J.Miller, S.Miller, R.Mizen, J.D.Morgan, S.M.Penry, D.M.Peters, R.Phillips, M.Protheroe, L.M.Purcell, S.Pursey, S.Rahaman, M.Spooner, R.L.Taylor, D.Whitelock, C.Williams, A.Wingrave, R.W.Wood a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | L.Beynon, N.Chapple, S.Curran, C.Griffiths, A.Jarrett, H.Jenkins, K.Jones, N.Pearce, S.Phillips a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

2. **COFNODION CYFARFOD BLAENOROL Y CYNGOR (BLWYDDYN DDINESIG 2019/20)**

**PENDERFYNWYD** Cadarnhau cofnodion cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2020 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3. **DEDDF TRWYDDEDU 2003 - ADOLYGIAD O BOLISI DEDDF TRWYDDEDU 2003**

Derbyniodd y cyngor wybodaeth am Ddeddf Trwyddedu 2003 – Adolygiad o Bolisi Deddf Trwyddedu 2003 fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Polisi diwygiedig Deddf Trwyddedu 2003.
2. Rhoi'r awdurdod i Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i hysbysebu a chyhoeddi'r Polisi yn y modd rhagnodedig.

4. **ADRODDIAD GWEITHREDU'R CYNLLUN DYLETSWYDD BIOMRYWIAETH - A GYMERADWYWYD I'R CYNGOR GAN Y CABINET**

Y Cynghorydd A. Wingrave, Aelod y Cabinet dros Adfywio a Datblygu Cynaliadwyedd gyflwynodd yr adroddiad, a oedd wedi'i gymeradwyo i'r cyngor gan y Cabinet mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2020.

**PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo Adroddiad Gweithredu Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (BDP) 2017 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.
2. Rhoi'r gweithdrefnau cyhoeddi fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd ar waith.

5. **ADOLYGIAD O GYFANSODDIAD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

**PENDERFYNWYD:**

1. Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi cyngor i'r Cyngor mewn perthynas ag adolygiad o Gyfansoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Sicrhau ei fod yn addas i'r diben ac yn bodloni'r holl ofynion deddfwriaethol, gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, ddadansoddiad o risgiau ac effeithiau datblygu/peidio â datblygu unrhyw opsiynau a ystyriwyd.

2. Y deuir â chynigion a ddatblygwyd gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn ôl i'r cyngor i'w hystyried.

6. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater a gynhwysir yng Nghofnod Rhif 7 isod yn awr, cytunodd y Maer y gellid ei drafod yng nghyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**Rheswm:**

Oherwydd yr elfen amser.

Rhoddodd yr Arweinydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r cyngor fod y Cynghorydd L Warman, y Dirprwy Faer, wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty ar ôl iddo gwympo'n ddiweddar a dymunodd y cyngor adferiad buan iddo.

7. **COVID-19 - DIWEDDARIAD LLAFAR**

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa o ran COVID-19 sy’n dwysáu. Roedd achosion wedi cynyddu i 389.4 fesul 100,000 ac ar hyn o bryd Castell-nedd Port

Talbot yw'r drydedd uchaf yng Nghymru. Roedd Profi ac Olrhain wedi nodi mai un ffactor pwysig a gyfrannodd at y cynnydd hwn oedd pobl nad oeddent yn dilyn y cyngor ar beidio â chymysgu.

Mynegwyd pryder gan y cyngor nad oedd rhai o'r canllawiau a oedd yn cael eu cyhoeddi’n glir ac yn achosi dryswch. Roedd angen i'r negeseuon a gyhoeddir yn y dyfodol fod yn syml ac yn glir. Tynnwyd sylw at y ffaith bod holl drigolion Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe wedi derbyn taflen wybodaeth am COVID-19 a bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cynnal ymgyrch debyg ledled Cymru. Hefyd, mae'r grŵp cyfathrebu rhanbarthol wedi gwneud gwaith i gysylltu â grwpiau sy'n gweithio gyda grwpiau diamddiffyn i sicrhau bod gwybodaeth COVID-19 ar gael.

Cafwyd trafodaeth ynghylch a oedd yn bosibl sicrhau bod y data ar COVID-19 ar gael i holl aelodau'r ward yn wythnosol. Esboniwyd bod y data yn perthyn i'r Bwrdd Iechyd a'i fod yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru ac yna'n cael ei rannu ag Awdurdodau Lleol, ac erbyn iddo gael ei ddosbarthu, roedd eisoes yn hen oherwydd y newidiadau cyson yn yr wybodaeth a gasglwyd. O ganlyniad, ni fyddai'r wybodaeth yn cynorthwyo aelodau ar lefel wardiau. Gofynnwyd i'r aelodau barhau i hyrwyddo canllawiau COVID-19 yn eu cymunedau.

Yn ogystal, nodwyd cynnydd mewn ysgolion uwchradd o ganlyniad i'r gwyliau ysgol diweddar, lle nad oedd plant yn dilyn rheolau pellter cymdeithasol ac yn parhau i gymysgu mewn grwpiau. O ganlyniad, bydd ysgolion yn aros ar agor tan ddiwedd y tymor i alluogi ysgolion i barhau i reoli ymddygiad plant a phobl ifanc tra byddant ar safle'r ysgol wrth ddilyn canllawiau COVID-19. Hysbyswyd y cyngor hefyd am yr adroddiad rhagorol diweddar gan arolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â rhoi canllawiau COVID-19 ar waith. Byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ddosbarthu i'r cyngor os yw’n bosib.

Clywodd y cyngor am y gwaith y mae Orendy Margam wedi bod yn ei wneud i geisio cynorthwyo cyplau â chynlluniau amgen ar gyfer priodasau o ganlyniad i wneud yr Orendy yn ganolfan frechu dorfol.

**Ymddeoliadau sydd ar ddod**

Dywedodd yr arweinydd wrth yr aelodau mai hwn oedd cyfarfod olaf y cyngor y byddai Mr S Phillips, Prif Weithredwr, yn bresennol ynddo oherwydd ei ymddeoliad arfaethedig. Talodd yr arweinydd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan Mr Phillips a’i ymrwymiad wrth wella'r

canlyniadau i gymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ystod ei gyfnod fel Prif Weithredwr a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddo. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau. Ymatebodd Mr Phillips a dymunodd yn dda i'r awdurdod, yr aelodau a'i olynydd Mrs K Jones ar gyfer y dyfodol.

Rhoddodd yr arweinydd wybod i'r aelodau hefyd am ymddeoliad Mrs B Austin, Cynorthwy-ydd Personol i'r Prif Weithredwr. Diolchodd yr arweinydd a Mr S Phillips i Mrs. Austin am yr holl gefnogaeth yr oedd wedi'i rhoi iddynt dros nifer o flynyddoedd a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddi. Cefnogwyd hyn gan yr aelodau. Roedd Mrs B Austin yn gwerthfawrogi'r sylwadau a roddwyd gan swyddogion ac aelodau yn y cyfarfod heddiw.

**CHAIRPERSON**